# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (303)v4

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM5881**

**David Rees (Aberafan)**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu dur i economi Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r diwydiant dur yn ystod y cyfnod anodd hwn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau brys ar nifer o feysydd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r costau ynni uchel a wynebir gan y diwydiannau ynni dwys yng Nghymru, megis y diwydiant dur, er mwyn sicrhau y gallant gystadlu yn erbyn cynhyrchwyr Ewropeaidd eraill o fewn marchnad fyd-eang.

**Cefnogir gan:**

Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)
William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Peter Black (Gorllewin De Cymru)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)
Lynne Neagle (Torfaen)
Jeff Cuthbert (Caerffili)
Keith Davies (Llanelli)
William Graham (Dwyrain De Cymru)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)
Alun Davies (Blaenau Gwent) R
Christine Chapman (Cwm Cynon)

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5898 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adolygiad o wariant a datganiad yr hydref Llywodraeth y DU;

2. Yn croesawu cyflwyno llawr Barnett sy'n 115 y cant o wariant cymharol y pen yn Lloegr; a

3. Yn nodi y bydd gwariant cyfalaf yng Nghymru yn codi dros £900 miliwn.

Spending Review and Autumn Statement 2015: documents (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

'ac yn nodi'r angen i gael cytundeb rhyng-lywodraethol ffurfiol er mwyn sicrhau canlyniad sy'n hir ei barhad'

Cefnogwyd gan:

Aled Roberts (Gogledd Cymru)

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu tro pedol Llywodraeth DU ar ddileu'r system credydau treth, ond yn nodi â phryder y gallai toriadau i gredyd cynhwysol arwain at golliadau tebyg ar gyfer teuluoedd incwm isel erbyn 2020.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at yr oedi o ran trydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Lundain i Abertawe a diffyg gwybodaeth ddiweddar am drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer bargen dinas Caerdydd.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith yr hepgorwyd prosiect morlyn llanw Bae Abertawe o ddatganiad yr hydref.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y toriad o 22 y cant yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU sy'n bygwth ein gallu i gyrraedd targedau newid hinsawdd a datgarboneiddio yng Nghymru.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y toriad o £1.7 miliwn mewn cyllid ar gyfer S4C, er gwaethaf yr ymrwymiad ym maniffesto Ceidwadwyr Cymru i '(d)diogelu arian ac annibyniaeth olygyddol S4C'.

Maniffesto'r Blaid Geidwadol i Gymru 2015

*[os chynigwyd gwelliant 7, bydd gwelliant 13 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'i gilydd i ddiweddaru dadansoddiad Gerry Holtham o danariannu Cymru, ac yna cynyddu'r grant bloc i lefel deg.

Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru

**Gwelliant 9 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith na fydd Cymru - yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon - yn cael cyllid canlyniadol Barnett llawn o ganlyniad i brosiect cyflymder uchel 2.

**Gwelliant 10 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cynnydd o tua £945 miliwn yng nghyfran ganlyniadol Cymru o'r cynnydd mewn gwariant ar iechyd yn Lloegr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i neilltuo'r swm hwn ar gyfer cyllidebau iechyd a gofal yng Nghymru.

**Gwelliant 11 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gael gwared ar fwrsariaethau nyrsio yn Lloegr a'r ffaith eu bod yn cael eu disodli gan fenthyciadau, a fydd yn cael effaith negyddol ar gynllunio gweithlu yn y dyfodol a recriwtio yn y GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau a fydd cyllid ar gyfer astudiaethau nyrsio yng Nghymru yn parhau.

**Gwelliant 12 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gapio budd-daliadau tai i'r gyfradd lwfans tai lleol yn y sector cymdeithasol sy'n peryglu'r bobl fwyaf agored i niwed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro effaith y penderfyniad hwn ar ddigartrefedd a gwasanaethau llety eraill a gefnogir yng Nghymru.

**Gwelliant 13 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i dorri ymrwymiad maniffesto i warchod cyllideb S4C.

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5896 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod busnesau bach yn rhan annatod o economïau cenedlaethol a chymunedol Cymru;

2. Yn croesawu'r rôl y mae Dydd Sadwrn Busnesau Bach yn ei chwarae o ran hyrwyddo busnesau bach Cymru;

3. Yn cydnabod y cyfraniad y mae busnesau bach yn ei wneud tuag at sicrhau hunaniaeth cymunedau lleol a hyrwyddo eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw;

4. Yn cydnabod bod busnesau bach, lleol yn darparu porth i gyflogaeth i lawer o bobl ifanc; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnig pecyn cymorth gwell i fusnesau bach i wella eu cyfraniad i fywyd economaidd-gymdeithasol Cymru;

b) datblygu seilwaith ledled Cymru i wasanaethu rhagolygon twf busnesau bach yng Nghymru yn well.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd is-bwynt 5a:

'gan gynnwys creu gweinyddiaeth busnes bach o fewn banc datblygu Cymru, sydd â'r dasg o ddarparu cymorth busnes mewn 'siop un stop' a mynediad amrywiol at gyllid'

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd is-bwynt 5b:

'gan gynnwys seilwaith digidol'

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal microfusnesau yng Nghymru rhag tyfu, er mwyn datblygu 'Mittelstand' yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach i gynnwys pob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai, sicrhau na fydd mentrau newydd yn talu unrhyw ardrethi busnes am y flwyddyn gyntaf y byddant yn gweithredu ac ailasesu'r eiddo at ddibenion ardrethi busnes bob tair blynedd.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5897 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Gwastraffu ein talent? Menywod a'r economi yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Tachwedd 2015 i'w hateb ar 2 Rhagfyr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig? OAQ(4)0664(HSS)

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0659(HSS)

**3. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio a chadw meddygon yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0660(HSS)

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fesurau iechyd ataliol yng Nghymru? OAQ(4)0665(HSS)

**5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru? OAQ(4)0669(HSS)

**6. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad i feddyginiaethau haenedig yng Nghymru? OAQ(4)0661(HSS)

**7. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0670(HSS)**W**

**8. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am driniaeth HIV yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0667(HSS)

**9. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag amseroedd aros am driniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0662(HSS)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella perfformiad Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? OAQ(4)0656(HSS)

**11. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysau'r gaeaf ar y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0671(HSS)**W**

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benodi uwch swyddogion yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0655(HSS)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0657(HSS)**W**

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau i gleifion canser y pancreas yng Nghymru? OAQ(4)0658(HSS)

**15. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi mewn mesurau arbennig? OAQ(4)0663(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

**1. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y bydd digon o seicolegwyr addysgol i weithio mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0652(ESK)

**2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y grant amddifadedd disgyblion hyd yma o ran pontio'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion o deuluoedd tlawd a mwy cefnog? OAQ(4)0662(ESK)

**3. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ad-drefnu addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0651(ESK)

**4. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae plant yr effeithir arnynt gan fod eu rhieni wedi'u carcharu yn cael eu cefnogi o fewn y system addysg yng Nghymru? OAQ(4)0655(ESK)

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffedereiddio ysgolion fel dewis amgen yn hytrach na chau ysgolion ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0654(ESK)

**6. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sy'n cael eu gweithredu i wella safonau addysg ledled Canol De Cymru? OAQ(4)0648(ESK)

**7. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn Islwyn? OAQ(4)0653(ESK)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyngor a ddarperir i ysgolion ynghylch ymweld â chyfandir Ewrop? OAQ(4)0656(ESK)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith yr ardoll prentisiaeth ar Gymru? OAQ(4)0658(ESK)**W**

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ariannu ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0649(ESK)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut y mae awdurdodau lleol yn dehongli Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan 2011 mewn perthynas â gwyliau teuluol yn ystod y tymor? OAQ(4)0661(ESK)

**12. Mike Hedges (South Wales East):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen adeiladu Ysgolion y 21ain Ganrif yn Abertawe? OAQ(4)0647(ESK)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig? OAQ(4)0660(ESK)

**14. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4? OAQ(4)0659(ESK)

**15. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc o addysg i gyflogaeth? OAQ(4)0650(ESK)